# Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy Medi 2011


## Eisteddfod y Bobl Ifanc




Ar ôl misoedd o ymarfer a threfnu, cyrhaeddodd penwythnos Eisteddfod y Bobl Ifanc 2011. Canolfan hamdden y Gaiman oedd cartref yr ŵyl, a daeth ieuenctid o wahanol rannau o'r Ariannin i gystadlu rhwng y 14eg a'r 17eg o Fedi.

Y rhagbrofion oedd gyntaf, wrth gwrs. Ymddangosodd rhyw fil o blant ar y llwyfan yn ystod y ddau ddiwrnod, a dros saithdeg mewn un gystadleuaeth! Erbyn nos Iau, roedd enwau'r rhai fyddai'n ymddangos ar y prif lwyfan wedi cael eu dewis.

Brynhawn Gwener, agorwyd yr eisteddfod mewn gweddi a chanwyd anthem yr Ariannin. Ar ôl i'r grŵp 'Otro Cielo' ganu i goffáu'r awdures María Elena Walsh, dechreuodd y cystadlu dan arweiniad Santiago Meza a Glenda Thomas. Yn unawdau, corau, partïon canu ac adrodd, offerynwyr, a dawnswyr, ymddangosodd llu o bobl ifanc dawnus ar y llwyfan. Her fawr i'r beirniaid oedd dewis enillwyr, a'r gynulleidfa'n cael modd i fyw yn gwrando arnyn nhw tan tua chanol nos.




Y prynhawn canlynol, roedd y neuadd yn orlawn eto wrth i Brenda Villoria a Julián Meza arwain y cystadlu. Ymddangosodd nifer o bobl ifanc rhwng dwy a deunaw oed ar y llwyfan, a daeth y rhan gyntaf i ben gyda seremoni Medal yr Eisteddfod. Cyfansoddi cerdd rydd Sbaeneg ar destun agored oedd yr her, a'r enillydd eleni am ei gerdd 'Cinco' oedd Gonzalo Lizama o'r Gaiman. Mae'r gerdd yn sôn am funud ym mywyd pob person pan fydd yn hoffi rhywun - nid o reidrwydd o ran cariad - ac eto'n parhau'n anweledig.



Ar ôl yr egwyl, arweiniodd Santiago Meza a Caren Jones rhan ola'r eisteddfod. Tro'r to hŷn, hyd 25 oed, oedd hi ar y llwyfan, a chyfle unwaith eto i fwynhau amryw o berfformiadau. Cyhoeddwyd canlyniadau'r cystadlaethau gwaith cartref hefyd - llenyddiaeth, celf, a chyfieithu - a hoff berfformiadau'r beirniaid yn y categorïau llwyfan.

Daeth Eisteddfod y Bobl Ifanc 2011 i ben gyda chanu 'Hen Wlad Fy Nhadau', a'r bore trannoeth roedd Cymanfa Ganu yng Nghapel Bethel wedi ei threfnu gan Ysgol Gerdd y Gaiman.

Llongyfarchiadau i bwyllgor yr eisteddfod a'r holl gystadleuwyr ar sicrhau penwythnos penigamp!

Mae rhaglen Eisteddfod y Bobl Ifanc 2012 ar gael nawr.

Trowch y dudalen i weld rhai lluniau o'r cystadlu...

Lois Dafydd





**Llongyfarchiadau i bawb!**



# Holi Gonzalo Lizama...

**1. Ble cawsoch chi eich geni?** *Ces i fy ngeni yn Gaiman.*

**2. Beth yw eich atgof cynharaf?**
*Mmm dw i'n meddwl chwarae yn fy nhŷ efo Mam... ddim yn siŵr.*

**3. Ble a sut ddysgoch chi Gymraeg?**
*Nes i ddysgu efo nain a wedyn dechreuais i fynd i'r dosbarth efo Esyllt.*

**4. Beth yw eich hoff air Cymraeg?**
*O, ddim yn gwybod! Emm... byrhoedlog-rhyddid-hyfryd-glas a lot mwy haha!*

**5. Beth ydych chi'n hoffi ei wneud?**
*Canu'r piano, siarad, canu, siarad, rhywbeth efo cerddoriaeth, siarad efo rhywun a bwyta hufen-iâ hahaaha!*

**6. Beth nad ydych chi'n hoffi ei wneud?**
*Dw i ddim yn hoffi aros (dw i'n gwybod, mae'n anodd haha) a rhedeg haha!*

**7. Sut deimlad oedd hi i ennill Medal Eisteddfod y Bobl Ifanc 2011?**
*Wow mae'r cwestiwn yn swnio'n bwysig iawn....Mmmm mae'n teimlo yn neis iawn wrth gwrs, yn wahanol ac yn hwyl achos dw i wedi cymryd rhan yn y Seremoni o'r blaen. Ond mae'n teimlo yn ddiddorol iawn pan fod rhywun yn neud y seremoni i ti hahaha... Ond neis iawn, wrth fy modd.*

**8. O ble cawsoch chi eich ysbrydoliaeth ar gyfer y gerdd?**
*Mmmm (cwestiwn anodd eto!) Dw i'n meddwl nes i weld y "llun" mae'r gerdd yn disgrifio, ond yn gyffredinol mae'n dod o rywbeth sydd yn fy synnu i.*

**9. Beth hoffech chi ei wneud yn y dyfofol?**
*Gobeithio gorffen yr ysgol a mynd i astudio cerddoriaeth yn Buenos Aires.*

**10. Pa un yw eich hoff lyfr?** *'100 Años de soledad' gan Gabriel García Marquez.*

**11. Beth yw eich hoff/gas fwyd?** *Fy hoff fwydydd yw hufen-iâ a siocled am byth, a fy nhas fwyd yw mondongo - ych a fi!*

**12. Ble mae eich hoff le yn y byd?** *Gartref :)*

# Eisteddfod yr Hendre




Cafodd eisteddfod newydd ei chynnal yn ddiweddar, sef Eisteddfod yr Hendre. Ar ddydd Sadwrn y 3ydd o Fedi, cyrhaeddodd plant, rhieni, athrawon, a chyfeillion Ysgol yr Hendre adeilad Escuela Nueva ar gyfer prynhawn o adloniant.

Y Meithrin a'r Derbyn berfformiodd gyntaf, a nifer o blant yn canu ac adrodd yn Gymraeg ac yn Sbaeneg. Roedd y gynulleidfa wrth eu bodd, a'r plant i gyd yn wên o glust i glust wrth iddyn nhw dderbyn bagiau bach o ddanteithion yn wobr am berfformio. Ar ôl y Meithrin, daeth y plant hŷn i'r llwyfan yn eu tro. Roedd y gynulleidfa'n amlwg yn mwynhau gwrando arnyn nhw'n canu ac yn adrodd hefyd!

Doedd dim enillwyr, gan fod y prynhawn yn gyfle i blant yr Hendre ymarfer a magu hyder erbyn Eisteddfod y Bobl Ifanc - ac i'w cefnogwyr fwynhau'r perfformiadau. Da iawn blant, a llongyfarchiadau i'r rhieni a'r athrawon ar eu gwaith caled!

# Eisteddfod Ddwl!



Gydag Eisteddfod y Bobl Ifanc ac Eisteddfod y Wladfa ar y gorwel, daeth cyfle i ddangos doniau mewn eisteddfod arbennig. Nid eisteddfod gyffredin oedd hon... ond Eisteddfod Ddwl!

Daeth criw da i Gwalia Lân y Gaiman ar y 1af o Fedi, a rhannwyd yn ddau dîm - ‘Tello’ a ‘Fontana’. Roedd tasg anodd iawn gan y beirniad, Nia Griffith, i ddewis enillwyr o blith y cystadleuwyr gwallgof!

Cafodd pawb lawer o hwyl a sbri wrth i’r ddau dîm fynd benben â’i gilydd mewn cystadlaethau go anghyffredin... canu gwaethaf, adrodd dros 100 oed, dawnsio Tango, bwyta cracyrs, a garglo ‘Sosban Fach’. Paratôdd y ddau dîm eu fersiynau



unigryw o’r Haca hefyd, a diddorol oedd gweld ‘Calon Lân’ a’r ‘Mochyn Du’ yn cael eu perfformio gyda chymaint o ddifrifoldeb! ‘Y Lludw’ oedd testun amserol y sgets, a daeth y cystadlu i ben gyda chystadleuaeth y corau. Ond yn hytrach na’r pedwar llais arferol, roedd gofyn i’r cantorion ganu fel anifeiliaid. Roedd yr ystafell yn debycach i fuarth fferm na bwyty, a go brin fod ‘Hen Wlad Fy Nhadau’ erioed wedi cael ei chanu gan ddefaid, ieir, gwartheg, cŵn, a moch o’r blaen!

Roedd y pwyntiau’n agos iawn drwyddi draw, a’r canlyniad yn dibynnu’n llwyr ar y gystadleuaeth olaf. Trwy gydol yr eisteddfod, bu’r ddau dîm yn brysur iawn yn cyfansoddi cerdd, a’r llinell gyntaf a roddwyd oedd ‘Nos Iau yn Gwalia Lân’. Cyhoeddodd y beirniad mai cerdd tîm ‘Fontana’ oedd yn cipio’r wobr yn y gystadleuaeth hon, ac felly’n ennill yr eisteddfod - o drwch blewyn!



Dyma’r gerdd fuddugol:


Nos Iau yn Gwalia Lân
Pawb yn agos i’r tân;
Neb yn gallu cofio’r gân.
Ond ar ôl cwrw...
Pawb yn cymryd rhan
Ac yn canu ‘Bys Meri Ann’.

Neb yn colli dim un gair,
Pawb yn gwybod yr holl gân.
Dechrau’r machlud, nôl i’r cartref;
Cofio am byth nos Iau yn Gwalia Lân.



Llongyfarchiadau i bawb!

# Diwrnod Owain Glyndŵr




Mae calendr yr Ariannin yn llawn diwrnodau cenedlaethol i gofio gwahanol ddyddiadau a phobl bwysig yn hanes y wlad. Ac ar yr 16eg o Fedi, cafodd Cymru'r cyfle i gofio am un o'i harwyr hithau - Owain Glyndŵr. Pwy oedd y dyn hwn?

Cafodd Owain ap Gruffudd Fychan (Owain Glyndŵr) ei eni tua 1354 i deulu o uchelwyr. Enw ei gartref enwog oedd Sycharth, yn Sir Ddinbych. Yn 1400, roedd ei gymydog Reginald Grey, sef Arglwydd Rhuthun, wedi dwyn darn o dir oedd yn perthyn i Owain. Gwrthododd Senedd Lloegr ei helpu i gael y tir yn ôl, felly ymosododd Owain ar dref Rhuthun, a'i llosgi i'r llawr.

Ar yr 16eg o Fedi 1400, cafodd Owain Glyndŵr ei gyhoeddi yn Dywysog Cymru yng Nglyn Dyfrdwy, a lledodd gwrthryfel drwy'r wlad i geisio ennill annibyniaeth i Gymru. Ymunodd nifer yn ei ymgyrch, a chipiodd gestyll Harlech ac Aberystwyth. Yn 1404, sefydlodd Owain Senedd i Gymru ym Machynlleth – mae'r adeilad dal yno – ac yn 1405 cafodd y Cytundeb Triphlyg ei arwyddo, oedd yn rhoi Cymru a thir yng ngorllewin Lloegr iddo. Yn 1406, ysgrifennodd Owain Lythyr Pennal at Frenin Ffrainc, Siarl VI, yn dweud y byddai'r Cymry yn cefnogi'r Pab os byddai'r Eglwys Gymreig yn annibynnol a bod dwy brifysgol yn cael eu sefydlu yng Nghymru.

Ni chafodd gweledigaeth Owain ei gwireddu, ac erbyn 1413 roedd y gwrthryfel wedi methu. Ond doedd neb yn gwybod lle'r oedd Owain Glyndŵr, a hyd heddiw does neb yn gwybod lle na sut iddo farw. Does dim un Cymro wedi bod yn Dywysog Cymru ers hynny, ac mae Owain Glyndŵr yn cael ei ystyried yn arwr cenedlaethol.



Mae ei faner (ar y chwith) yn dal i gael ei defnyddio yn symbol o genedlaetholdeb.

Dydy Diwrnod Owain Glyndŵr ddim yn wyliau - mae'n rhaid i bawb fynd i'r gwaith ac i'r ysgol.  Ond roedd yr 16eg o Fedi yn gyfle i gofio am Owain Glyndŵr a'r hyn a wnaeth ar gyfer Cymru.

# Sadwrn Siarad ym Mhorth Madryn

Ar y 10fed o Fedi, cynhaliodd Menter Patagonia 'Sadwrn Siarad' ym Mhorth Madryn. Daeth criw o bobl i Dŷ Toschke i sgwrsio gyda'i gilydd yn Gymraeg - dros frecwast oedd wedi'i baratoi gan rai o'r gwragedd!

Ar ôl cyflwyno'u hunain a dod i adnabod ei gilydd yn well trwy weithgareddau sgwrsio, cafodd pawb gyfle i ofyn cwestiynau i'r athrawes Gymraeg, Lorena Peralta, am ei hymweliad diweddar â Chymru.  Diddorol iawn oedd gwrando arni'n siarad am y cwrs ym Mhrifysgol Caerdydd, y gwahanol fwydydd iddi eu blasu, y dathliadau Gŵyl y Glaniad, a'i phrofiadau yn y glaw!



Darllenwyd pytiau o 'Clecs Camwy' dros baned arall o de, cyn defnyddio'r darnau'n sail i gemau geiriau - ac ambell un yn troi at Gornel y Plant!

Mwynhaodd pawb fore hwyliog, a oedd yn gyfle da i gymdeithasu gyda ffrindiau.

# Ymweliad Huw a Rhiannon

Cawson ni gwmni Huw a Rhiannon Williams yn Nyffryn Camwy ddechrau'r mis. Er eu bod nhw ar eu mis mêl, fuon nhw hefyd yn gweithio yn ystod eu hymweliad.

Mae Rhiannon yn gwneud doethuriaeth ym Mhrifysgol Morgannwg, ac yn rhan o'i hymchwil mae hi wedi ysgrifennu perfformiad theatrig am ei hatgofion hi o fynychu Capel Nasareth, Pontiets, De Cymru. Cyfeiliodd Huw ar yr organ wrth i Rhiannon berfformio yng Nghapel Tabernacl, Trelew, ac yn Ysgol Gerdd y Gaiman.



Er gwaetha'r pellter rhwng yr Ariannin a Chymru, gallai'r gynulleidfa uniaethu gyda phrofiadau Rhiannon ac yn mwynhau gwrando arni'n rhannu ei hatgofion . Yn dilyn ei pherfformiad yn y Gaiman, cynhaliodd Rhiannon weithdy drama. Rhoddodd bawb gynnig ar ddweud stori am 'Ddathlu' gan ddefnyddio'u cyrff yn unig - tasg anodd dros ben oedd peidio â siarad!

Diolch i'r ddau am eu cwmni a'u cyfraniad!

## 'Yr Hirdaith' - adolygiad gan Glyn Evans

Hanes y Cymry dewr a hwyliodd ar y Mimosa i greu Cymru newydd iddynt eu hunain ym Mhatagonia oedd testun cynhyrchiad Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ar gyfer 2011. Hynny, a'r siom a gawsant ar ôl cyrraedd. Cafodd *PATAGONIA Yr Hirdaith / The Long Journey*, a gynhyrchwyd gan Tim Baker, ei berfformio yn Aberystwyth, Clwyd, a Chaerdydd rhwng 4 ac 8 Medi. Roedd yn dairieithog - Saesneg, yn bennaf, Cymraeg, ac ychydig o Sbaeneg.

Gallai'r teitl fod wedi drysu rhai i feddwl am "Hirdaith Edwyn [Cynrig Roberts]". Ond hirdaith y cynhyrchiad hwn oedd y 7,000 o filltiroedd ar fwrdd y Mimosa i draeth ger y fan sy'n cael ei galw yn Borth Madryn erbyn heddiw. Y daith honno sy'n mynd â'r rhan fwyaf o'r amser, gyda'r un rhan o dair olaf yn ymwneud â siom a dicter y Cymry o gyrraedd gwlad o sychder a llwch, ac nid y tir gwyrdd a ffrwythlon roedden nhw yn ei ddisgwyl. Hunllef na allwn ond ei dychmygu, yn dilyn hunllef y daith o borthladd Lerpwl. Ni all rhywun ond edmygu eu penderfyniad i ddal ati – ond sylweddoli hefyd nad oedd ganddynt fawr o ddewis. Doedd "*Dydym ni ddim yn rhy hapus â hwn, fe awn i rywle arall*" ddim yn ddewis.




Os oedd y fordaith yn arwrol, gallem gredu fod dofi'r tir wedyn yn ddeg gwaith mwy arwrol. Mae hynny'n haeddu drama ar ei phen ei hun, ac roedd yn rhaglen y cynhyrchiad rhyw hanner addewid y gallai hynny ddigwydd yn rhan o ddathliadau canrif a hanner Y Wladfa yn 2015. Gobeithio bydd popeth yn cael ei wneud i sicrhau cydweithrediad theatraidd rhwng pobl ifanc Cymru a Phatagonia. Wrth gwrs, yr hyn sy'n rhyfeddu rhywun yw cyn lleied sydd wedi ei wneud o stori fawr Patagonia gan deledu a theatr Cymru.

Mae'r cynhyrchiad hwn yn cychwyn gyda'r Cymry ar y doc yn Lerpwl yn disgwyl am eu llong, y Mimosa. A'i chapten yn proffwydo wrth gychwyn y byddai "*y llong hon a chwithau yn mynd i lawr mewn hanes - neu'n jyst mynd i lawr*". Bron iddi ddod i hynny, a'r daith yn gymysgedd o galedi, tristwch marwolaeth, a llawenydd geni. Ac yn gefndir ac yn gynhaliaeth barhaus oedd y freuddwyd o Gymru newydd, rydd a chyfartal, ochr arall y byd.

Cyfres o ddarluniau oedd y strwythur, a rhywun yn holi tybed na fyddai'r cynhyrchiad wedi elwa o gael stori *bersonol* yn llinyn i gydio'r cyfan wrth ei gilydd. Ond y dewis fu cyflwyniad tebycach i basiant nag i ddrama, ac annheg fyddai ei feirniadu am beidio â bod yr hyn na fwriadai fod. Ond heb os, gwnaeth ei gyfraniad i ddeffro'r ymwybyddiaeth o'r bennod ryfeddol hon yn ein hanes, gyda golygfa olaf yn deyrnged i'r closio a fu'n ddiweddar rhwng yr Hen Wlad a'r Wladfa y bu'n euog o'i anghofio am lawer yn rhy hir. Diolch byth am yr estyn breichiau cynyddol a fu ers y canmlwyddiant, ac a atgyfnerthir fwyfwy siawns wrth i 2015 agosáu.

## Cornel y Dysgwyr | *Rincon de aprenda Galés*

| | |
|---|---|
| Beth wyt ti’n hoffi gwneud? | *Que te gusta hacer?* |
| Dwi’n hoffi… | *Me gusta…* |
| canu | *cantar* |
| chwarae (pêl-roed/rygbi/pêl-law) | *jugar (futball, rugby, handball)* |
| gwrando ar gerddoriaeth | *escuchar música* |
| darllen | *leer* |
| dawnsio | *bailar* |
| bwyta | *comer* |
| gwylio’r teledu | *mirar televisión* |
| mynd i’r sinema | *ir al cine* |
| nofio | *nadar* |
| coginio | *cocinar* |
| A ti? | *Y vos?* |



## Diolch yn fawr i gyfranwyr a noddwyr y rhifyn hwn...

**PLAS HEDD**
Complejo Turístico
**Fflatiau moethus a heddychlon ger môr Madryn.**
**(02965)471357**
**Stryd F.L. Beltrán 1644/1626**

***Plas-y-Coed***
**Tŷ Te hynaf Gaiman.**
**Croeso Cymreig a the traddodiadol ers 1944.**
**Heol Michael D. Jones 123, Gaiman.**



**TeithiauTango**
Dewch i weld y Wladfa
10002 ATOL PROTECTED
www.teithiautango.co.uk
**Cwmni teithio o Aberystwyth sy'n arbenigo yn y Wladfa.**

**Nwyddau ar gyfer ffermwyr yn Nhrelew**
**camposur**
SERVICIOS AGROPECUARIOS
**CHILE 32 Tel:(02965)436259-Tw.**

***Gwalia Lân***
**Bwyty safonol gydag awyrgylch Gymreig a chroeso cynnes.**
**Cornel Heol Eugenio Tello a Heol Michael D. Jones, Gaiman.**

# Tŵr y Gwanwyn



Cynhwysion y ffrois:

100g blawd plaen
pinsiad o halen
1 ŵy
250ml llaeth oer
12g menyn wedi toddi

I wneud wyth ffrois:

Hidlwch y blawd a'r halen i fowlen ac ychwanegwch yr ŵy. Ychwanegwch hanner y llaeth i'r fowlen yn raddol, gan guro'r gymysgedd gyda llwy bren nes y bydd yn llyfn. Yna ychwanegwch weddill y llaeth a'r menyn yn raddol. Gadewch i'r gymysgedd sefyll am tua 20 munud. Toddwch ychydig o fenyn ar badell ffrio, a choginio wyth ffrois maint plât bach arno. Rhowch lenwad rhwng pob ffrois, gan adeiladu tŵr - fel yn y llun.

Gallwch ddewis unrhyw lenwadau, ond dyma rai syniadau:

Tafelli o ham a chaws, neu ham a phin afal ar gaws meddal.

Tomatos wedi eu tafelli a letys, a thaenu 'mayonnaise' arnyn nhw.

Cymysgu tomatos a phupur coch a gwyrdd wedi'u torri mewn 'mayonnaise'.

Sbigoglys wedi'u torri a'u cymysgu gyda chaws meddal.

Addurnwch y ffrois uchaf gydag olewydd neu domatos bach. Gadewch y tŵr i sefyll am rai munudau cyn ei dorri'n bedwar neu wyth darn.

Beth am wneud ffrois melys, gyda jam llaeth, ffrwythau coch mewn hufen trwchus, siocled, stiw afalau, neu hufen-iâ yn llenwadau?

# Coginio ym Madryn

Ers mis Mai, mae Cymdeithas Gymraeg Porth Madryn wedi bod yn cynnal cwrs coginio ar brynhawniau Sadwrn. Dros yr wythnosau roedd cyfle i ddysgu ryseitiau Cymreig wrth i Nelcis Jones a Betty Morgan ddangos sut i goginio gwahanol ddanteithion - o fara cartref i fins peis, ac o fara brith i sgons.

Daeth y cwrs i ben ddiwedd mis Awst. Ond ar y 10fed o Fedi, daeth tro'r myfyrwyr i roi cynnig ar y ryseitiau hyn a chynnal te arbennig. Ac am wledd!


Cyrhaeddodd tua deg ar hugain o ferched Dŷ Toschke, a llanwyd y byrddau gyda'u campweithiau - teisen fach, bara cartref, teisen ddu, ffrois, bara llechwen, teisen hufen, bara brith, teisen blât... Roedd pawb - yr athrawon, y myfyrwyr, a'r ymwelwyr - yn amlwg wedi'u plesio wrth i'r te lifo, a'r platiau wagio!

Gydag ond briwsion ar ôl ar y platiau a phawb wedi bwyta llond eu boliau, cyflwynodd trefnwyr y cwrs dystysgrifau i bob un. Cafodd bawb hefyd gopi o lyfr ryseitiau sy'n cynnwys holl ryseitiau'r cwrs.

Da iawn bawb!



# Croesair Eisteddfod




**AR DRAWS:**

1. GWOBR AM LENYDDIAETH GYMRAEG YN EISTEDDFOD MADRYN (1, 5)
6. AC 1. I LAWR. EISTEDDFOD DE LA JUVENTUD (8; 1, 4, 5)
7. Y GWIR YN ERBYN Y _ (3)
8. EISTEDDFOD PORTH MADRYN: EISTEDDFOD ______ (6)
11. 'A OES _______?' (5)
13. EISTEDDFOD CHUBUT: EISTEDDFOD ______ ______ (1, 6)
15. (A 4. I LAWR) BLE MAE MEINI'R ORSEDD? (5, 1; 5)
17. *ACOMPAÑANTE* (8)

**I LAWR**

1. GWELER 6. AR DRAWS (1, 4, 5)
2. *JURADOR* (8)
3. EISTEDDFOD YNG NGHYMRU YM MIS AWST: YR EISTEDDFOD __ (11)
4. GWELER 15. AR DRAWS (5)
5. LLAWER O BOBL YN CANU GYDA'I GILYDD (3)
9. DARN O BAPUR AM GYSTADLU (9)
10. ARWEINYDD YR ORSEDD YNG NGHYMRU (9)
12. Y PRIF GYSTADLAETHAU LLENYDDOL: Y GORON A'R _____ (6)
14. *ESCENARIO* (6)
16. CYNTAF, ______, TRYDYDD (3)
18. *RECITACION* (5)

**Cofiwch fod 'ch', 'dd', 'ff', 'ng', 'll', 'rh' 'th' yn un llythyren!**

## Geirfa'r Mis / *Vocabulario del Mes*

| | | | |
|---|---|---|---|
| rhagbrofion | *preliminares* | uchelwr/uchelwyr | *noble(s)* |
| llenwad | *relleno* | gwrthryfel | *revolución* |
| her | *desafio* | ymgyrch | *campaña* |
| cael modd i fyw | *disfrutar* | gweledigaeth | *visión* |
| anweledig | *invisible* | cenedlaetholdeb | *nacionalismo* |
| penigamp | *excelente* | addewid | *promesa* |
| hidlo | *damizar* | sail | *base* |
| proffwydo | *profetizar* | mis mêl | *luna de miel* |
| wrth fy modd | *me encanta* | doethuriaeth | *doctorado* |
| danteithion | *delicias* | uniaethu | *empatia* |
| dawn/doniau | *talento(s)* | atgyfnerthu | *reforzar* |
| gwallgof | *loco* | cyfraniad | *contribución* |
| benben â'i gilydd | *en contra* | dewr | *valiente* |
| difrifoldeb | *gravedad* | drysu | *confundido* |
| o drwch blewyn | *por un pelito* | hunllef | *pesadilla* |
| arwr/arwyr | *heroe(s)* | mordaith | *viaje por mar* |


# Cornel y Plant

Llongyfarchiadau mawr i
**Mabon Lewis**
ar ennill y wobr am liwio Smot!

Diolch i bawb am gystadlu.

## Lliwiwch Sam Tân!

Anfonwch y llun wedi'i liwio gyda'ch enw at Lois Dafydd erbyn 27 Hydref am gyfle i ennill gwobr.



# Chwilair y Gwanwyn

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| g | w | a | n | w | y | n | s | h | y | n | f | ch |
| s | n | w | b | h | ff | m | l | f | g | t | y | p |
| g | w | y | r | dd | w | h | t | e | c | ng | b | th |
| a | ll | r | u | n | p | a | l | p | m | w | ll | b |
| s | b | l | o | d | a | u | s | c | s | t | i | c |
| c | g | a | h | p | f | l | d | r | th | b | w | r |
| w | b | s | a | r | g | w | t | m | e | d | i | t |
| s | f | c | d | a | i | l | r | w | t | ch | a | l |
| s | r | e | ng | p | l | g | dd | f | r | n | u | h |

gwanwyn
haul
blodau
awyr las
gwyrdd
medi
lliwiau
dail

Os hoffech chi gyfrannu unrhyw beth at 'Clecs Camwy', neu ei noddi, cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 2965 386 198